

RYDYM YN RECRIWTIO UCHAFBWYNTIAU Y SWYDD





Dirprwy Brif Drydanwr

Gwybodaeth Allweddol

Cyflog : £31,022 to £33,699

Oriau: 37 awr yr wythnos

Contract : Parhaol

Ynglŷn â'r Swydd

Fel Dirprwy Brif Drydanwr, byddwch yn rhan o dîm technegol profiadol ac uchel ei barch, sy'n sicrhau bod sioeau yn Theatr Pafiliwn y Rhyl, Arena Digwyddiadau'r Rhyl a lleoliadau eraill HSDd yn cael eu darparu i'r safonau cynhyrchu uchaf.

Byddwch yn helpu'r Prif Drydanwr gyda dylunio gosodiadau sain, goleuo a clyweledol, yn ogystal â gosod a gweithredu ystod eang o gyfarpar technegol sain, goleuo ac arall yn ystod perfformiadau llwyfan byw. Byddwch yn sicrhau bod y goleuo, sain a system sain, a chyfarpar trydanol arall yn cael ei gynnal a'i gadw i safon uchel.

Mae'r swydd yn cefnogi cylch gwaith ehangach y Tîm Technegol, gan leoli, dylunio, gosod, atgyweirio a chynnal a chadw gosodiadau trydanol, sain a goleuadau ar draws lleoliadau HSDd, a rheoli rhestr gyfarpar HSDd sy'n cynnwys cyfarpar digwyddiadau awyr agored.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg /This document is also available in English



Dirprwy Brif Drydanwr

Amdanoch Chi

Dylech gael profiad o weithio o fewn tîm technegol proffesiynol, mewn theatr neu leoliadau digwyddiadau, ynghyd â gwybodaeth dda am gyfarpar sain, goleuo a clyweledol proffesiynol, ynghyd â'i ddyluniad, ei osodiad a'i weithrediad. Bydd gennych ddealltwriaeth o'r rheoliadau trwyddedu ac iechyd a diogelwch perthnasol hefyd, mewn perthynas â theatrau a digwyddiadau, yn ogystal â dealltwriaeth gadarn o ddeddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys LOLER, COSHH a PUWER.

Mae'r mwyafrif o ddigwyddiadau a gweithgareddau yn digwydd ar benwythnosau a nosweithiau, a bydd gofyniad i weithio oriau anghymdeithasol. Mae'r rôl yn cynnwys gweithgarwch corfforol, megis symud offer, gosod y llwyfan, adeiladu setiau, rigio, gweithio ar uchder ac ati, felly mae'n rhaid i chi allu bodloni gofynion y swydd yn gorfforol. Rhaid i chi allu gweithio'n hyblyg ac fel rhan o dîm, tra hefyd yn arddangos y sgiliau arweinyddiaeth sydd eu hangen i reoli staff yn effeithiol ac o fewn terfynau amser tynn.



Dirprwy Brif Drydanwr

Amdanom ni

Trwy fuddsoddiad parhaus dros 12 mlynedd, mae HSDdCyf wedi datblygu portffolio o gyfleusterau sy'n arwain y sector, gan gynnwys 7 cyfleuster ffitrwydd premiwm, 7 darpariaeth bwyd a diod unigryw, 2 atyniad anhygoel a theatr syfrdanol â 1,000 o seddi.

Mae tîm HSDd yn dîm sefydledig, angerddol sy'n cael ei yrru, gyda diwylliant o berfformiad uchel a gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol. Mae ein llwyddiannau yn y gorffennol wedi ein harwain i ble'r ydym heddiw, gydag enw rhagorol yn ein holl gyfleusterau, a thîm gweithgar sy'n ffynnu ar y cwsmer yn cael y profiadau gorau posibl.

Rydyn ni'n gweithio i athroniaeth 'un tîm, un cyfrif banc' - rydyn ni i gyd yn un tîm, pa waeth ym mha safle rydych chi wedi'ch lleoli. Gyda'n gilydd rydyn ni i gyd yn cyfrannu at wneud HSDdCyf yn llwyddiannus

Ein Gwerthoedd



Uchelgais a Thwf



Ymddiriedolaeth ac Uniondeb



Rhagoriaeth a Gwydnwch



Balchder ac Angerdd



Lleoliad: Theatr y Pafiliwn Rhyl

Dyddiad cau: 29.08.25

Cyfweliadau: 09.09.25

I wneud cais: gyrrwch eich CV i Pobl@hamddensirddinbych.co.uk

diolch AM eich diddordeb

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag Andy Hughes, Rheolwr Technegol,
ar 01824 706648 neu Andy.Hughes@hamddensirddinbych.co.uk



www.denbighshireleisure.co.uk



DenbighshireLeisureLtd



@DenbighshireL



@DenbighshireL